| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 23 Mawrth 2023 |
| **TEITL** | Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Dyfrig Siencyn |

1. Ym mis Rhagfyr 2020, cytunodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Llywodraethau Cymru a'r DU ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

2. Mae adrodd yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

3. Rhoddodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ystyriaeth i adroddiad perfformiad Chwarter 3 2022/23 yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror 2023. Penderfyniad y Bwrdd Uchelgais oedd:

   - Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.
   - Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

4. Mae'r wybodaeth berthnasol i'r eitem (eitem 5) i'w weld o dan y ddolen isod:

   https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistdocuments.aspx?cid=418&mid=4852&ver=4&LLL=1

5. Gweler ynghlwm, adroddiad perfformiad Chwarter 3 sydd yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

6. Y chwarter hwn, gwelwyd cymeradwyo diweddariad Achos Busnes y Portffolio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid blynyddol.

7. Yn dilyn tynnu prosiectau Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan a Fferm Sero Net Llysfasi yn ôl o'r Cynllun Twf, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais rai penderfyniadau allweddol ynghylch ail-glustnodi cyllid o fewn y cynllun. Yn gyntaf, mae Cronfa Cyflawni'r Portffolio ar gyfer 2023-24 wedi'i sefydlu i gefnogi prosiectau aeddfed o fewn y portffolio sydd yn ymdopi â chwyddiant costau neu faterion hyfywedd i symud i gyflawni. Yn ail, cytunodd y Bwrdd ar y meini prawf ar gyfer clustnodi £13m ar gyfer y broses newid prosiectau a gaiff ei lansio ddechrau 2023.

8. Mae diweddariad Chwarter 3 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni diwygiedig y portffolio a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2022. Mae pedwar prosiect yn adrodd yn goch ar hyn o bryd naill yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf** - mae'r prosiect yn wynebu materion cymedrol, yn cynnwys oedi yn amserlen yr Achos Busnes Llawn, ac oedi yn yr amserlen gaffael wrth i gyfnod ymgysylltu â'r farchnad gael ei ymestyn. Mae'r materion yn derbyn sylw gan y tîm prosiect.
- **Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni)** - mae'r prosiect yn cael ei adolygu gan fod Prifysgol Bangor wedi datblygu cynnig i gyflawni'r prosiect mewn dau gam. Mae Cam 2 y prosiect yn dal i gael ei adolygu a disgwylir penderfyniad am elfen hon y prosiect yn Chwarter 4.
- **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon** – caniatâd cynllunio i'w sicrhau a bwlch ariannu posib yn sgil costau cyfalaf adeiladu yn cynyddu.
- **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol** - gwaith ar ddatblygu'r prosiect wedi'i oedi yn sgil materion cyllid cyfatebol ac edrych am leoliadau amgen ar gyfer y prosiect.

9. Yn unol â chais y Pwyllgor, cyflwynir adroddiad perfformiad Chwarter 3 2022/23 gerbron i’w graffu.